**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 25 Hydref 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 9 Tachwedd 2022 |

---

**PWNC**

Eitem 6:ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANARTH A LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gofyn ar y Cabinet i sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin a chwynion o fewn y Cyngor.

Yn unol â Pholisi Pryderon a Chwynion y Cyngor cyflwynir adroddiad pob 6 mis i'r Cabinet i grynhoi'r sefyllfa a datblygiadau o ran Cwynion a Gwella'r Gwasanaeth.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 25 Hydref 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 9 Tachwedd 2022 |

---

## PWNC

Eitem 7:CYNLLUN CYMORTH COSTAU BYW DEWISOL

---

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd y Cynllun Costau Byw Dewisol.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mynegwyd yr angen i greu Cynllun er mwyn ystyried ffordd briodol o ddyfarnu taliadau penodol sydd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ond yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd sef

- Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor
- Ariannu Rhwydwaith Hybiau Cefnogi Pobl a Banciau Bwyd.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 25 Hydref 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 9 Tachwedd 2022 |

## PWNC

Eitem 8:CYLLIDEB REFENIW 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2022 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.

Nodwyd bod effaith ariannol Covid ar rai meysydd yn parhau yn 2022/23, er nad yw'r effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colled incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion.

Nodwyd bod rhagolygon gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Tai ac Eiddo eleni. Manylir ar y rhesymau penodol sydd yn effeithio'r adrannau yn rhan 5 o'r adroddiad, ond mae effaith y cynnydd mewn chwyddiant a phrisiau trydan yn benodol yn ffactor amlwg.

O ystyried y gorwariant sylweddol a ragwelir gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, nodwyd bwriad y Prif Weithredwr i alw cyfarfod o'r swyddogion perthnasol er mwyn mynd i wraidd y gorwariant, i sicrhau bod camau pendant yn cael eu cymryd i geisio dod a'r sefyllfa o fewn rheolaeth cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan adrodd i'r Cabinet ar y cynllun ymateb.

Er ei bod hi'n gynamserol i drosglwyddo arian o gronfeydd nes bydd y sefyllfa ariannol yn derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, argymhellir mai'r drefn o ran defnyddio'r cronfeydd i gyllido'r bwlch ariannol bryd hynny fydd defnyddio:

- yn gyntaf, Balansau Ysgolion i gyllido'r cynnydd mewn prisiau trydan yn yr ysgolion
- yn ail, defnyddio £4.5 miliwn o'r gronfa trefniadau adfer yn sgil Covid a sefydlwyd i gyllido heriau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor
- yn olaf, y gweddill i'w gyllido o'r Gronfa Strategaeth Ariannol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol

dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 25 Hydref 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 9 Tachwedd 2022 |

---

**PWNC**

Eitem 9:ADRODDIAD TROSOLWG ARBEDION - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2022/23, 2021/22 a blynyddoedd blaenorol.

Nodwyd bod effaith Covid-19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ymateb i'r argyfwng dros y cyfnod cychwynnol o'r argyfwng.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 25 Hydref 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 9 Tachwedd 2022 |

---

**PWNC**

Eitem 10:RHAGLEN GYFALAF 2022/23 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2022

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2022) o'r rhaglen gyfalaf.

Cymeradwywyd yr ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £26,751,000 o 2021/22,
- dim newid mewn defnydd o fenthyca,
- cynnydd o £7,396,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
- dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
- cynnydd o £2,156,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
- cynnydd o £13,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
- cynnydd o £538,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---